**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET - DYDD MERCHER, 2 HYDREF 2019**

**IS-BWYLLGOR (CYLLID) Y CABINET**

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: D.Jones a/ac R.G.Jones

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

H.Jenkins a/ac T.Davies

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd D Jones yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CEISIADAU AMRYWIOL I'R GRONFA GRANTIAU**

**Penderfyniadau:**

1. Cymeradwyo cymorth grant gwerth £250 y flwyddyn i'w ddefnyddio i dalu prydles flynyddol ar dir gerllaw Canolfan Hamdden Cwm Nedd ar gyfer Clwb Beicio a Sglefrfyrddio Cwm Nedd, yn amodol ar adolygiad yn unol ag adolygiadau rent.

2. Cymeradwyo cymorth grant gwerth £1,980 y flwyddyn i'w ddefnyddio i dalu swm rhent prydles Llyfrgell Gymunedol Cymer Afan, yn amodol ar adolygiad yn unol ag adolygiadau rent.

3. Cymeradwyo cymorth grant gwerth £200 i'w ddefnyddio i dalu swm rhent prydles y lawnt fowlio yn Heol Dyfed, Castell-nedd, ar gyfer Cymdeithas Fowlio Heol Dyfed, yn amodol ar adolygiad yn unol ag adolygiadau rent.

4. Cymeradwyo cymorth grant gwerth £200 i'w ddefnyddio i dalu swm rhent prydles y lawnt fowlio ym Mharc Coffa Vivian, Sandfields,

Port Talbot, ar gyfer Cymdeithas Fowlio Parc Vivian, yn amodol ar adolygiad yn unol ag adolygiadau rent.

5. Cymeradwyo cymorth grant gwerth £200 i'w ddefnyddio i dalu swm rhent prydles Lawnt Fowlio Ynysmaerdy, Llansawel, ar gyfer Cymdeithas Fowlio Ynysmaerdy, yn amodol ar adolygiad yn unol ag adolygiadau rent.

6. Cymeradwyo cymorth grant gwerth £200 i'w ddefnyddio i dalu swm rhent prydles y lawnt fowlio ym Mharc Coffa Talbot, Port Talbot, ar gyfer Cymdeithas Fowlio Parc Coffa Talbot, yn amodol ar adolygiad yn unol ag adolygiadau rent.

7. Cymeradwyo cymorth grant gwerth £200 i'w ddefnyddio i dalu swm rhent prydles Lawnt Fowlio Parc y Werin, Gwauncaegurwen, ar gyfer Cymdeithas Fowlio Gymunedol Gwauncaegurwen, yn amodol ar adolygiad yn unol ag adolygiadau rent.

8. Cymeradwyo cymorth grant gwerth £200 i'w ddefnyddio i dalu swm rhent prydles Lawnt Fowlio Bryn ar gyfer Clwb Bowlio Bryn, yn amodol ar adolygiad yn unol ag adolygiadau rent.

9. Cymeradwyo cymorth grant gwerth £200 i'w ddefnyddio i dalu swm rhent prydles y lawnt fowlio ym Mharc Tudor, Croeserw, ar gyfer Cymdeithas Fowlio Croeserw, yn amodol ar adolygiad yn unol ag adolygiadau rent.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Penderfynu ar swm y gefnogaeth ariannol mewn perthynas â'r ceisiadau am grantiau a dderbyniwyd.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 3. CAIS I GRONFA'R DEGWM

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo cymorth grant i ail-beintio wal allanol Capel Saron, y Creunant, gan dalu hyd at 25% o gyfanswm y costau (amcangyfrifir eu bod oddeutu £2,400)

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Penderfynu ar swm y gefnogaeth ariannol mewn perthynas â'r ceisiadau am grantiau a dderbyniwyd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**CADEIRYDD**